**CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE**

**(Remotely via Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, P.Downing, J.Curtice, T.Baron, D.Price a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | J.Burnes, P.Ryder, J.Lewis and A.Thomas |

---

## 1. CROESO A GALW'R RHESTR

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi mynd i gyfarfod yn ddiweddar gyda Chadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe, y Cynghorydd Rob Stewart, ynghyd â Rheolwr y Rhaglen Jonathan Burnes, y Prif Swyddog Wendy Walters, a swyddogion Gwasanaethau Democrataidd Castell-nedd Port Talbot i drafod rhai o'r problemau parhaus y mae Craffu wedi'u hwynebu.

Dywedodd y Cadeirydd na fyddai eitem 6 (adroddiad ar y prif bwyntiau) yn cael ei chraffu, gan nad oedd Chwarter 2 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor.

Mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd ynghylch yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn modd amserol i ganiatáu craffu effeithiol. Cytunodd y Pwyllgor y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu'n ffurfiol at bawb sy'n gysylltiedig i dynnu sylw at y materion sy'n wynebu'r pwyllgor craffu ac yn awgrymu ffyrdd ymlaen i sicrhau bod y pwyllgor nesaf yn gallu craffu yn ôl yr angen.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021 fel cofnod gwir a chywir.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021 fel cofnod gwir a chywir.

## 5. SGILIAU A THALENT - DIWEDDARIAD

Croesawodd y Cadeirydd Jane Lewis i'r cyfarfod. Rhoddodd Jane Lewis yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y Prosiect Sgiliau a Thalent.

Diben y rhaglen yw sicrhau bod gweithlu medrus yn y rhanbarth i ddiwallu anghenion y prosiectau newydd sy'n cael eu datblygu a'u darparu o fewn y Fargen Ddinesig.

Tynnodd y swyddog sylw at y gwelliant yn ffigurau personau heb gymhwyster rhwng 2019 a 2020.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r amcanion Sgiliau a Thalent sy'n cynnwys 2,200 o sgiliau ychwanegol a chefnogi'r gwaith o ddatblygu o leiaf 14,000 o sgiliau mewn unigolion (lefelau 2-77), 3000 o gyfleoedd prentisiaeth newydd, gweithio gydag ysgolion i greu llwybr gyrfa o addysg ysgol i addysg uwch/addysg bellach a phrentisiaethau ym meysydd allweddol digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar a gwyddor bywyd/lles. Hefyd i greu 2 ganolfan ragoriaeth. Er mwyn cyflawni hyn datblygir prosiectau prawf i ddatrys problemau lle nodir bylchau mewn sgiliau.

Hyd yma penodwyd rheolwr rhaglen sydd wedi ymgysylltu â phrosiectau'r Fargen Ddinesig i nodi anghenion a bylchau sgiliau. Bydd baromedr sgiliau yn cael ei gwblhau erbyn canol mis Chwefror. Ar hyn o bryd mae'r baromedr gydag ymgynghorwyr allanol sy'n gwirio'r data ac unrhyw dueddiadau newydd sy'n digwydd mewn

sectorau a fydd yn effeithio ar anghenion sgiliau'r rhanbarth yn y dyfodol.

Sefydlwyd Grŵp Datrys Sgiliau i nodi bylchau mewn sgiliau ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Darparu hefyd i ddarparu datrysiadau i'r bylchau sgiliau a nodwyd.

Mae syniadau prosiect yn cael eu datblygu i nodi prosiectau i ddiwallu'r anghenion sgiliau. Bwriedir ymgysylltu â fforymau penaethiaid ar gyfer cydlynwyr 14-19 oed ym mhob ardal awdurdod lleol i weld sut y gellir datblygu sgiliau yn y meysydd hyn i ddiwallu anghenion y prosiectau yn y dyfodol.

Yn ystod y chwe mis nesaf cynhelir Adolygiad *Gateway* arall ar ôl cwblhau'r baromedr. Bydd ymgysylltu ehangach hefyd ag ysgolion a cholegau ynglŷn â'r anghenion sgiliau a nodwyd gan y baromedr. Bydd prosiectau'n cael eu cymeradwyo i ddarparu hyfforddiant sgiliau a gwella sgiliau ar draws y 5 maes allweddol a nodwyd a bydd cyfleoedd uwchsgilio pellach yn cael eu datblygu. Mae bwriad hefyd i greu'r cyfleoedd prentisiaeth.

Holodd yr Aelodau sut y bydd y cyllid ar gyfer y prosiect yn cael ei ddefnyddio. Bydd canlyniadau'r baromedr yn dangos i ba gyfeiriad y mae angen i'r prosiect fynd. Mae angen defnyddio'r cyllid i ddatblygu cyrsiau newydd ac i gyd-fynd ag anghenion y prosiectau sy'n cael eu datblygu dan y Fargen Ddinesig. Mae llawer o ddiddordeb yn y cyllid i ddatblygu ffynonellau o ysgolion, colegau, y sector preifat sy'n darparu hyfforddiant ac addysg uwch. Bydd set o feini prawf ar gael i sicrhau nad yw cyrsiau a ddarperir yn cael eu dyblygu.

Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch amseru'r prosiect gan fod llawer o'r prosiectau eisoes ar waith. Mae'r Fargen ym mlwyddyn 5 o 15 ar hyn o bryd ac roedd yr Aelodau'n pryderu na fyddai'r sgiliau ar waith ar gyfer cwblhau'r prosiectau.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddeall sut mae rhan uwchsgilio'r prosiect yn cael ei harwain. Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wedi bod yn gweithio gyda busnesau ar draws y rhanbarth cyfan dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae grwpiau clwstwr ar waith ar gyfer pob un o'r sectorau blaenoriaeth ar draws y rhanbarth i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynllun ar gyfer y sectorau penodol a'r anghenion sgiliau.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Adeiladu yn cael ei thrafod ar hyn o bryd rhwng y colegau a'r prifysgolion yn y rhanbarth. Mae'n debygol y bydd yn cael ei chyflwyno heb gynnwys rhaglen y fargen ddinesig. Mae potensial ar gyfer Canolfan Ragoriaeth o ran ynni gwynt a llanw. Bydd hyn yn debygol o ddigwydd ar ddiwedd y rhaglen. Holodd yr Aelodau pryd fydd amlygiad ffisegol y ganolfan yn debygol.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder o ran cyllid a'r dyraniad cyllid ar ddechrau'r prosiect. Cyfanswm y gyllideb yw £30 miliwn - mae £10 miliwn yn dod o'r Fargen Ddinesig ac mae £20 miliwn o arian cyfatebol sy'n cynnwys £4 miliwn o'r sector preifat ac £16 miliwn o'r sector cyhoeddus.

Holodd yr Aelodau am effaith y pandemig ar gyllid y sector preifat. Cyfraniad y sector preifat oedd cyflogi'r cyfleoedd prentisiaeth a grëwyd drwy'r contractau a hefyd y defnydd o'u cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant. Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r pandemig wedi effeithio ar y £4 miliwn o gyllid preifat.

Holodd yr Aelodau sut y bydd elfen uwchsgilio'r prosiect yn gweithio o ran yr ysgolion. Mae swyddogion wedi bod yn mynd i fforymau penaethiaid yng Nghastell-nedd Port Talbot i sicrhau bod ysgolion uwchradd yn ymwybodol o'r Fargen Ddinesig a'r Rhaglen Sgiliau a Thalent. Hefyd, i drafod sut y gall y Prosiect Sgiliau a Thalent weithio gyda'r cwricwlwm newydd. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal o ran sut y gall y prosiect uwchsgilio'r athrawon er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno'r sgiliau hyn i'r ysgolion. Yn ychwanegol, i edrych ar gymwysterau eraill mewn ysgolion nad ydynt yn cael eu harholi gan CBAC.

Nid cyllid cyfalaf yw'r £30 miliwn. Holodd yr Aelodau a oes grantiau arian parod ar gael? Cadarnhaodd swyddogion y bydd grantiau'n cael eu dyrannu i ysgolion, colegau, addysg uwch a chyflogwyr mewn gweithleoedd. Nid i unigolion yn uniongyrchol. Holodd yr Aelodau a yw'r prosiect yn gweithio gyda masnachwyr unigol. Cadarnhaodd swyddogion y byddai grwpiau clwstwr yn gallu gwneud cais am gyllid i uwchsgilio gweithwyr a dylid amlinellu o ble y byddai'r hyfforddiant yn dod yn eu cais.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.

## 6. **BLAENRAGLEN WAITH CYD-BWYLLGOR DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE**

Aeth Phil Ryder drwy Flaenraglen Waith y Cyd-bwyllgor. Amlinellodd pa eitemau oedd wedi'u cwblhau a pha eitemau oedd yn parhau. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Lywodraethu a Sicrwydd. Mae'r Gwireddu Buddion ar Lefel Portffolio wedi'i gwblhau. Mae'r gwireddu buddion ehangach yn parhau a disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn y Cyd-bwyllgor sydd ar ddod. Gan gyfeirio at bum argymhelliad yr Adolygiad *Gateway*, nodir bod tri o'r pump wedi'u cwblhau a bod y ddau arall wedi'u cwblhau'n rhannol.

Mae Rheoli Meddalwedd bron wedi'i gwblhau, fodd bynnag mae un ymholiad ynglŷn â'r sicrwydd sy'n ofynnol a dylai hyn gael ei ddatrys yn fuan. Mae Dangosfyrddau Prosiect y Rhaglen wedi dechrau. Mae'r dangosfyrddau ar lefel portffolio ar gael i'w gweld.

Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cymeradwyo rôl yr Uwch-swyddog Cyfrifol. Bydd pob Uwch-swyddog Cyfrifol yn derbyn cymorth arweiniad ychwanegol a hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru lle bo angen.

Cynhaliwyd yr adolygiad o Gadeirydd Portffolio'r Rhaglen ym mis Tachwedd, ac yn unol â Chadeirydd y Cyd-bwyllgor, byddai hyn yn cael ei ymestyn tan fis Mai 2022.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd *Gateway* wedi'i sefydlu ac mae swyddogion yn gweithio ar y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar hyn o bryd. Dylid cyflwyno hyn i'r Cyd-bwyllgor yn ystod y misoedd nesaf. Derbyniwyd cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer y Prosiect Sgiliau a Thalent ac Achos Busnes Campysau. Mae diweddariad parhaus ar Achos Busnes Pentre Awel.

Mae'r Cynllun Cyfathrebu a Marchnata wedi ei ddiweddaru ynghyd â'r amserlen Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r gwaith ffeithlunio'n parhau.

Mae digwyddiad ddwywaith y flwyddyn y Fargen Ddinesig wedi'i symud i fis Mawrth. Bydd y digwyddiad ddwywaith y flwyddyn yn ddigwyddiad arddangos a gynhelir ar 3 Mawrth. Gwahoddir yr holl randdeiliaid allweddol i fod yn bresennol ac i ymgysylltu â busnesau a thrafod cyfleoedd yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb. Awgrymwyd y dylid anfon

gwahoddiad i'r Cyd-bwyllgor Craffu fel y gall aelod fod yn bresennol ar ran y pwyllgor.

Mae'r datganiadau o fuddiannau bellach wedi'u cwblhau ac eithrio’r Bwrdd Strategaeth Economaidd. Mae hyn oherwydd bod y ffurflen yn cael ei diweddaru.

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi codi pryderon am y gofrestr risgiau o'r blaen. Nodir ym Mlaenraglen Waith y Rhaglen Cyd-bwyllgor Craffu nad yw'n mynd gerbron y Cyd-bwyllgor tan fis Chwefror. Gofynnodd yr Aelodau i'r wybodaeth gael ei chyflwyno iddynt i’w hystyried cyn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth. Byddai swyddogion yn croesawu'r her ynghylch y ffactorau lliniaru a nodwyd ar y gofrestr risgiau. Amlinellodd yr Aelodau hefyd bwysigrwydd gweld y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r gofrestr mewn ymateb i amgylchiadau newidiol.

Cododd yr Aelodau bryderon am y modd yr amgyffredir bod pob cyfarfod arall o'r Cyd-bwyllgor yn cael ei ganslo.

Ystyriodd yr Aelodau'n fyr yr elfennau caffael a amlinellir yn y Flaenraglen Waith. Nododd swyddogion fod gweithgarwch caffael yn seiliedig o fewn yr awdurdodau lleol. Roedd yr Aelodau am gael trosolwg o ble mae eitemau'n cael eu caffael o ran ardal leol a manteision i'r gymuned.

## 7. <u>BLAENRAGLEN WAITH</u>

Cytunodd yr Aelodau y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau mis Mawrth a ddylai gynnwys Adroddiadau Monitro Chwarter 2 a Chwarter 3, Diweddariad Ariannol a Phortffolio'r Gofrestr Risgiau.

**CADEIRYDD**